Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol G.G. Bronllwyn
Colwyn Road
Gelli
CF41 7NW

10/11/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Hydref 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Gymraeg Bronllwyn yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella agweddau o fedrau digidol disgyblion

- Mae arweinwyr wedi cydweithio'n fwriadol i gryfhau medrau digidol y disgyblion mewn amrywiaeth eang o feysydd, yn enwedig ym maes data a meddwl cyfrifiadurol.
- Ers ymgymryd â'u cyfrifoldebau, mae'r cydlynwyr digidol wedi cydweithio'n effeithiol er mwyn gosod cyfeiriad gwella clir a chadarn i'r ddarpariaeth. Maent yn manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol priodol, sy'n gwella eu dealltwriaeth o'r maes ac yn cynyddu eu gallu i arwain yn hyderus.
- Mae'r cydlynwyr wedi llunio trosolwg cynhwysfawr o'r ddarpariaeth ac wedi datblygu canllawiau manwl ar gyfer datblygu data a meddwl cyfrifiadurol. Yn ogystal, maent wedi nodi'r angen i ehangu'r arweiniad hwn i gynnwys yr holl agweddau digidol.
- Mae arweinwyr yn monitro cynllunio'r athrawon yn rheolaidd ac yn casglu tystiolaeth o'r ddarpariaeth trwy gyfrwng portffolios electronig. Trwy hyn, mae gan arweinwyr well dealltwriaeth o'r hyn sy'n cael ei gyflwyno i'r disgyblion gan sicrhau eu bod yn diwallu eu hanghenion yn briodol.

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae athrawon yn gwella eu dealltwriaeth o addysgu agweddau digidol drwy gymryd rhan mewn sesiynau dysgu ar-lein. O ganlyniad, maent yn magu hyder wrth gyd-gynllunio, cyd-ddysgu ac wrth rannu syniadau ar sut i gyflwyno agweddau digidol sy’n llai cyfarwydd iddynt.
- Mae’r disgyblion ieuengaf yn datblygu hyder yn eu medrau digidol o oedran cynnar. Yn fuan ar ôl dechrau’r ysgol, maent yn llwyddo i lywio rhaglenni cyfrifiadurol sylfaenol, megis newid lliw paent er mwyn creu delweddau syml o ddail yr hydref.
- Ar y cyfan, mae’r disgyblion hynaf yn gwneud cynnydd da yn eu medrau digidol. Wrth iddynt symud trwy’r ysgol, maent yn trafod eu medrau yn ddeallus ac yn defnyddio geirfa briodol i egluro eu dysgu. Er hyn, nid yw eu medrau wedi’u datblygu’n ddigon eang ar draws yr holl feysydd digidol.

## Datblygu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

- Mae arweinwyr wedi blaenoriaethu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau mathemateg mewn cyd-destunau amrywiol. Gyda chyfranogiad athrawon, maent wedi llunio trosolwg cynhwysfawr o’r ddarpariaeth sy’n eu galluogi i gynllunio profiadau rhifedd pwrpasol ac ystyrlon i ddisgyblion. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu ac yn cymhwyso eu medrau’n llwyddiannus.
- Mae arweinwyr wedi trefnu cyfleoedd gwerthfawr i staff fynychu hyfforddiant ac i gydweithio ag ysgolion eraill. Mae ymweliadau i rannu ac arsylwi ar arfer dda, ynghyd â chefnogaeth gan bartneriaid allanol, wedi cefnogi’r athrawon yn werthfawr. Mae hyn, yn ei dro, wedi datblygu hyder athrawon wrth gyflwyno cysyniadau mathemategol i ddisgyblion.
- Mae athrawon yn dechrau myfyrio ar eu darpariaeth ac yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau yn adeiladol dros amser. Trwy hyn, maent yn cynnig profiadau sy’n galluogi disgyblion i ddefnyddio eu gwybodaeth a’u medrau mathemategol mewn cyd-destunau addas, ar lefelau her sy’n briodol. Maent hefyd yn nodi meysydd sydd angen sylw pellach, megis darparu cyfleoedd ymestynnol i gyflwyno a dadansoddi data. Er hyn, nid yw athrawon yn sicrhau bod dilyniant a her gyson ym mhob agwedd o weithgareddau mathemateg a rhifedd. Mae’r agwedd hon o’r ddarpariaeth yn datblygu’n raddol ond nid yw wedi ei gwreiddio’n llawn.
- Mae athrawon y disgyblion ieuengaf yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth gynnar o gysyniadau rhif. O ganlyniad, mae disgyblion yn magu hyder yn eu defnydd o rif ac yn cymhwyso eu dealltwriaeth yn dda drwy ystod eang o gyfleoedd chwarae.

- Erbyn brig yr ysgol, mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i'r disgyblion hynaf adeiladu ar eu medrau a'u dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn effeithiol. Mae hyn yn golygu bod disgyblion yn datblygu i fod yn fwy hyderus wrth gymhwyso eu gwybodaeth mewn ystod briodol o gyd-destunau a phrofiadau ar draws y cwricwlwm.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6742365

Yn gywir



**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol